

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 4 Mawrth 2013 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)

Cyng. Huw Jones

Cyng. Ann Stokoe

Cyng. Haydn Lewis (Aelod lleol o'r Cyngor Sir)
(cyrraedd 8.00)

Cyng. Auriol Williams (Is-Gadeirydd)

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Llinos Price

Mr Wynford Jones (Clerc dros dro)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i'r cyfarfod.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngorwyr Des Davies, Morris Davies, Islwyn Iago, Lyn Jones.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod cofnodion mis Chwefror yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim

5. Materion yn codi:

Balchder Pentrefi: Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Ann Stokoe. Dywedodd bod y cais i gyflawni gwaith ar ochr allanol Hen Ysgol y Ferwig wedi ei ddanfôn erbyn y dyddiad cau, sef 4 Mawrth. Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cynnwys: ffurfio creigardd, garddlunio, ailwynebu'r maes parcio, dymchwel y toiledau, lledu'r fynedfa. Os bydd y cais yn llwyddiannus, disgwylir derbyn grant o 60% tuag at y gwaith gyda swm o £1,841.50 yn ddyledus gan Gyngor Cymuned y Ferwig. Rhaid cyflawni'r gwaith erbyn Tachwedd 2013.

Mr Ken Griffiths, Graig, Mwnt: Llwybr yr arfordir – Diweddariad: Cysylltodd y Clerc dros dro â Mr Nigel Nicholas o'r Cyngor Sir. Addawodd ef gysylltu â'r Cadeirydd cyn trefnu cyfarfod gyda Mr Ken Griffiths i drafod ei bryderon. Disgwylir i'r Cadeirydd gysylltu â Mr Griffiths a'i gynghori i siarad yn uniongyrchol â Mr Nicholas. Cadarnhawyd gan Mr Nicholas nad oedd cyfrifoldeb yswriant yn disgyn ar ysgwyddau Mr Griffiths am unrhyw ddamwain a all ddigwydd o achos cerddwyr yn defnyddio'r llwybr ar ei dir. Awgrymwyd bod angen derbyn y sylwadau hyn yn ysgrifenedig.

Cae Gwyrdd: Cyfarfu'r Cyngorwyr yng Nghae Gwyrdd fore Sadwrn, 9 Chwefror am 10.00yb. Yn dilyn y cyfarfod gyda Mrs Laura Heley, Adran Ystadau'r Cyngor Sir, awgrymwyd trefnu cyfarfod safle arall rywbryd cyn cyfarfod mis Ebrill ac wedi i'r Clerc ddychwelyd o'i gwyliau. Gofynnwyd am bresenoldeb swyddog yr Adran Priffyrdd a chynrychiolydd Asiant Cefnfyrd Gogledd a Chanolbarth Cymru yno. Byddai ystyried gostwng cyflymder ceir i 30mya drwy'r pentref yn fanteisiol.

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc (Wedi ei dalu)

£100.00

Ysgol Feithrin Penyparc

(Wedi ei dalu)

£100.00

Urdd Gobaith Cymru

CAB (adran 142)

Ambiwlans Awyr Cymru

Gŵyl Fawr Aberteifi

Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013

Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs

Gofal Mewn Galar

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Cynllunio

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir: Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Mawrth, 2013.

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A120863	Plot 3, Brynawel Site, Penyparc: Variation of condition 2 of planning permission A071117 – revised drawings	Wedi ei ganiatáu.
A120869AV	O. C. Davies & Son Ltd., Penparc Motors: Display of signage (illuminated and non-illuminated)	Wedi ei ganiatáu.

Cyfarfod Safle. Ni chynhaliwyd cyfarfod safle yn ystod y mis.

8. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

Yswiriant FUW (hanner tâl am yswiriant Canolfan Ieuenctid Penyparc)	101262	£305.50
Zurich Municipal (Yswiriant y Cyngor o 1/4/13 – 31/3/14)	101263	£743.94
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (glanhau Ystafell Berkley 5/12/12 – 5/3/13)	101264	£216.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim.

9. Gohebiaeth:

158	Zurich Municipal	Atodlen ac Anfoneb Yswiriant y Cyngor am y flwyddyn 1/4/13 – 31/3/14	Y Tystysgrifau i'w harddangos ar hysbysfyrdau'r ddau fan cyfarfod.
159	Cyngor Sir Ceredigion (Priffyrdd)	Cau Ffordd Dros Dro: U5022 Penyparc, 11/2/13 – 13/2/13 (gweler y cynllun)	Nodwyd.
160	Cyngor Sir Ceredigion (Y Cyng. Ellen ap Gwynn)	Gweithdy: Canlyniadau'r Cyfrifiad, Ceredigion a'r Iaith Gymraeg, 8/3/13, 9.30-1.00yp, Siambr y Cyngor, Penmorfa	Nodwyd. Mae'r agenda gan y Clerc (gweler 166 isod)
161	Menter Aberteifi	"Dros y Tonnau": Arddangosfa yn dathlu ein treftadaeth forwrol, 18-23 Mawrth, Oriel y Farchnad Yd, 10.30-4.00yp	Y Clerc wedi arddangos y posteri yn yr hysbysfyrdau. Cafwyd braslun o'r gweithgareddau gan y Cyng. Ann Stokoe.
162	Ambiwlans Awyr Cymru	Apêl am gymorth ariannol	I'w drafod ym mis Ebrill
163	Yswiriant FUW	Anfoneb am hanner tâl yswiriant Canolfan Ieuenctid Penyparc (£305.50)	Gweler eitem 8
164	Mr Ken Griffiths, Archwilydd Mewnol	Pris am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2012-13: £105	Roedd pawb o blaid derbyn pris Mr Griffiths i archwilio'r cyfrifon.
165	CAVO	Taith Cludiant Cymunedol Ceredigion: lawnsio cofrestru wefan, Cronfa Data Gyrwyr Gwirfoddol a chofrestr Bachu Bws, Theatr Mwldan, 21/3/13, 10.30-12.30yp	Llawlyfrau ar gael gan y Clerc. Cytunodd y Cadeirydd fynychu'r digwyddiad.
166	Cyngor Sir Ceredigion (Y Cyng. Ellen ap Gwynn)	Rhaglen y Gweithdy: Canlyniadau'r Cyfrifiad, Ceredigion a'r Iaith Gymraeg, Siambr y Cyngor, Aberaeron, 8/3/13, 9.30-1.00yp	Nodwyd
167	Gŵyl Fawr Aberteifi	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod ym mis Ebrill

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

168	J. J. Williams a'i Feibion	Pris am waith ar Olygfan Gwbert	Cynigiodd y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod y Cyngor yn derbyn y pris gan ofyn i gwmni J. J. Williams a'i Feibion gyflawni'r gwaith cynted â bo modd.
169	Cyngor Sir Ceredigion: Mrs Laura Heley (Swyddog Ystadau)	Cae Gwyrdd, Penyparc: Derbyniwyd cyfres o ddyddiadau er mwyn trefnu cyfarfod i drafod prydles y Cae Gwyrdd ar y safle.	Gweler eitem 5. Cytunwyd gofyn i Mrs Heley gynnig dyddiadau wedi i'r Clerc ddychwelyd o'i gwyliau.
170	Sianel Glir Afon Teifi Cyf.	"Gweledigaeth Patch"	Dogfen ar gael gan y Clerc. Gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor, cytunodd y Cadeirydd fynychu cyfarfod nesaf Sianel Glir Afon Teifi Cyf.
171	Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc	Anfoneb Glanhau Ystafell Berkley 5/12/12 – 5/3/13	Gweler eitem 8

10. Materion Eraill.

- (a) Ceubwll islaw Capel Ffynnonbedr gerllaw Bwthyn Penrhiw, Felinwynt: Y Clerc i gysylltu gydag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir
- (b) Bwlch yn y cae goruwch Gwbert, gyferbyn ag Island View. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr Adran Gynllunio i ddarganfod perchnogaeth y cae ac i archwilio i mewn i bwrpas y fynedfa.
- (c) Awgrymodd y Cadeirydd bod y Cyngor yn trefnu cinio blynyddol fel yr arferwyd. Cytunwyd iddo wneud ymholiadau gyda'r Clwb Golff gan gynnig y dyddiadau canlynol: 7, 21 a 28 Ebrill.
- (d) Cyhoeddodd y Cyng. Auriol Williams fod ganddi ffurflenni noddîr daith gerdded er budd Aren Cymru sydd i'w gynnal brynhawn Sul, 24 Mawrth.
- (e) Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r Cyngor Sir bod dŵr yn dal i grynhoi ger tyddyn "Cestria" ar y ffordd tuag at Benyparc o'r Ferwig.
- (f) Pryderodd y Cyng. Haydn Lewis nad oedd y Cyngor Sir wedi gorffen y gwaith ar y pyst sydd yn anharddu dolen y llwybr arfordir gerllaw Gwbert. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Kevin Kirkland, Adran Priffyrdd, a hefyd gofyn i'r Cyngor Sir osod arwydd bod angen cadw'r fynedfa i'r cae yn glir ar y man parcio sydd gerllaw.
- (g) Cyfarfod Ymgynghorol â swyddogion y Cyngor Sir. Teimlodd y Cyngor bod hi'n angenrheidiol i gyfarfod â'r swyddogion. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Prif Weithredwr i drefnu cyfarfod.
- (h) Gyda phryder y derbyniwyd adroddiad am gyflwr truenus dwy fflat yn Heol y Felin, Penyparc. Cafwyd cadarnhad bod pla llygod mawr a chyflwr moesol y tenantiaid yn pery gofid i gymdogion. Yn ogystal, mae sbwriel o raddfa annerbyniol wedi ymgasglu gerllaw, felly mae'r cyfan yn beryg iechyd difrifol. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at swyddogion Iechyd Cyhoeddus y Cyngor Sir a hefyd at gwmni Tai Ceredigion.

11. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 8 Ebrill, 2013 yn Hen Ysgol y Ferwig, am 7.30yh.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2013

13 Mai (YB) (CB) 3 Mehefin (F) 8 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F)
7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 4 March 2013 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)	Cllr Auriol Williams (Vice-Chairman)
Cllr Huw Jones	Cllr Eurig Lloyd
Cllr Ann Stokoe	Cllr Llinos Price
Cllr Haydn Lewis (Local County Council Member) (arrived at 8.00pm)	Mr Wynford Jones (Interim Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the meeting.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Des Davies, Morris Davies, Islwyn Iago, Lyn Jones.
- 3. Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the minutes of the February meeting were correct.

- 4. Declaration of personal interests:** None.

5. Matters arising:

Balchder Pentrefi (Ceredigion Community and Town Councils Village Renewal Fund): An update was given by Cllr Ann Stokoe. She confirmed that the application for a grant to improve the entrance to the Old School at Ferwig had been submitted by the closing date of 4 March. The following improvements were included in the project: rockery, landscaping, resurfacing of the car park, demolition of the toilets, widening of entrance. If the application proves to be successful, it is expected to receive a 60% grant towards the work with a total contribution of £1,841.50 due from Ferwig Community Council. Work to be completed by November 2013.

Mr Ken Griffiths, Graig, Mwnt: Coastal path – Update. The Interim Clerk (IC) contacted Mr Nigel Nicholas of the County Council. He promised to contact the Chairman before organising a meeting to discuss the concerns raised by Mr Griffiths. The Chairman agreed to advise Mr Griffiths to communicate directly with Mr Nicholas. Mr Nicholas confirmed that Mr Griffiths would not be responsible for public insurance liability for any incident arising from walkers using his land. Members agreed that written evidence verifying this statement is essential.

Cae Gwyrdd: The Councillors attended a site meeting at Cae Gwyrdd on Saturday, 9 February at 10.00am. Following a meeting with Mrs Laura Heley, County Council Estates Department, it was recommended to organise a further meeting with representatives from the Highways Department and the Mid & North Wales Trunk Road Agency on the return of the Clerk from her vacation in April. It was suggested that a restriction of the speed limit to 30mph on the A487 through the village of Penyparc would be beneficial.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Penyparc School PTA	(Paid)	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	(Paid)	£100.00
Urdd Gobaith Cymru		
<i>CAB (section 142)</i>		
Wales Air Ambulance		
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>		
Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013		
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs		
Cruse Bereavement Care		

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Planning

County Council Planning Meeting : 13 March 2013.

Applications approved or refused by the County Council:

<i>App. No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council Decision</i>
A120863	Plot 3, Brynawel Site, Penparc: Variation of condition 2 of planning permission A071117 – revised drawings	Approved.
A120869AV	O. C. Davies & Son Ltd., Penparc Motors: Display of signage (illuminated and non-illuminated)	Approved.

Site meeting. No site meeting was held during the month.

8. Financial Matters.

Bills paid:

FUW Insurance (50% of the insurance cost of Penparc Youth Club)	101262	£305.50
Zurich Municipal (Council Insurance 1/4/13 – 31/3/14)	101263	£743.94
Penparc YFC (cleaning services at Ystafell Berkley 5/12/12 – 5/3/13)	101264	£216.00

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Auriol Williams that the above bills be paid.

Receipts: None.

9. Correspondence:

158	Zurich Municipal	Council Insurance schedule and invoice for the year 1/4/13 – 31/3/14	Insurance Certificate to be displayed at both venues.
159	Ceredigion County Council (Highways)	Temporary Road Closure U5022 Penparc, 11/2/13 – 13/2/13 (see road plan)	Noted.
160	Ceredigion County Council (Cllr Ellen ap Gwynn)	Workshop: Census Results, Ceredigion and the Welsh Language. 8/3/13, 9.30-1.00pm, Council Chambers, Penmorfa	Noted. Clerk has agenda (see 166 below)
161	Menter Aberteifi	“Over the Waves”: Exhibition celebrating our marine heritage. 18-23 March, Corn Exchange, 10.30-4.00pm	Posters displayed on notice boards. A summary of topics was given by Cllr Ann Stokoe.
162	Wales Air Ambulance	Application for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.
163	FUW Insurance	Invoice for 50% of the insurance cost of Penparc Youth Club (£305.50)	See item 8
164	Mr Ken Griffiths, Internal Auditor	Quotation for the internal auditing of Council accounts for 2012-13: £105	It was agreed unanimously to accept Mr Griffiths’ quotation.
165	CAVO	Ceredigion Community Transport Roadshow: launch of new website, the Volunteer Database and Minibus Match register. Theatr Mwldan, 21/3/13, 10.30-12.30pm	Handbook held by Clerk. The Chairman agreed to attend the function.
166	Ceredigion County Council (Cllr Ellen ap Gwynn)	Programme of Workshop: Census Results, Ceredigion and the Welsh Language. 8/3/13, 9.30-1.00pm, Council Chambers, Penmorfa 8/3/13, 9.30-1.00pm	Noted.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

167	Gŵyl Fawr Aberteifi	Application for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.
168	J. J. Williams & Sons	Quotation for work at the Gwbert Viewpoint	It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the Council accepts the quotation and requests J. J. Williams & Sons to complete the work as soon as possible.
169	Ceredigion County Council: Mrs Laura Heley (Estates Officer)	Cae Gwyrdd, Penyparc: A list of dates to organise a site meeting was received	See item 5. It was agreed to ask Mrs Heley to offer dates after the return of the Clerk to her duties.
170	Afon Teifi Fairways Ltd.	"Vision for Patch"	Document held by the Clerk. Being a member of the ATFL, the Chairman agreed to represent the Council at the next meeting.
171	Penyparc YFC	Invoice for the cleaning of Ystafell Berkley 5/12/12 – 5/3/13	See item 8

10. Other Matters

- (a) Pothole near Ffynnonbedr Chapel, alongside Penrhiw, Felinwynt: The IC to request the County Council to complete the essential work.
- (b) Gated entrance to the field opposite Island View, Gwbert. The IC was asked to seek the ownership of the land and to enquire as to the purpose of the planning application with the County Council.
- (c) The Chairman recommended that the Council organises the Annual Dinner. It was agreed that the following dates were suitable: April 7, 21 and 28.
- (d) Cllr Auriol Williams stated that sponsored forms for the annual Kidney Wales walk were available from her. The walk will take place on Sunday, 24 March.
- (e) The IC was asked to inform the County Council that surface water was still gathering near "Cestria" towards the entrance to the village of Penyparc from Ferwig.
- (f) Cllr Haydn Lewis voiced his concern that the County Council had not completed the work to the unsightly posts alongside the coastal path at Gwbert. The IC was asked to write to Kevin Kirkland, Highways Department, and to request the County Council to erect a notice, "Access to be kept clear at all times", at the nearby entrance to the field used regularly by a local farmer.
- (g) Consultative Meeting with the Chief Executive and senior officers of the County Council: The Council felt that the annual meeting was of benefit to the Council and to the community and requested that the IC write to the Chief Executive requesting a meeting as soon as possible.
- (h) It was with trepidation that members discussed the condition of two flats at Heolyfelin, Penyparc, when it was confirmed that a plague of rats was seen scurrying in the area. The immoral use of council property also caused great concern to neighbours. In addition, a mound of unacceptable rubbish is in dire need of removing. If action is not taken, the area could well cause a serious health hazard to all. The IC was asked to contact the Public Health Department of the County Council and also Tai Ceredigion voicing its concerns.

11. Date of next Council Meeting: 8 April 2013 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Council Meetings for 2013

13 May (YB) (AGM) 3 June (F) 8 July (YB)
2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting